**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

–

**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565

–

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Jane Hutt AS
Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip

3 Mai 2023

Annwyl Jane,

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol: Y Bil Gwarchodaeth rhag Aflonyddu ar sail Rhyw yn Gyhoeddus

Fel y gwyddoch, gofynnwyd i'm Pwyllgor ystyried Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Gwarchodaeth rhag Aflonyddu ar sail Rhyw yn Gyhoeddus; dechreusom ar ein hystyriaeth yn ein cyfarfod yr wythnos hon.

Gwnaethom nodi ichi ddweud y canlynol ym mharagraffau 24 a 25 o'r Memorandwm:

> *"Mae'r Swyddfa Gartref wedi cynnig Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ar gyfer defnyddio'r pwerau cychwyn yng nghymal 4 (dim ond i'r graddau y mae'n ymwneud â chychwyn cymalau 1 a 3), lle mae Llywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig yn cytuno ar amserlen i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau i gychwyn y darpariaethau perthnasol yn y Bil. Yn y cyddestun hwn, er bod hwn yn faes datganoledig, mae Llywodraeth Cymru yn fodlon i'r Bil wneud darpariaeth ar gyfer Cymru ac i'r Ysgrifennydd Gwladol gadw'r pwerau cychwyn.*
>
> *Bydd copi o'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth gyda Llywodraeth y DU ar ddefnyddio'r pwerau cychwyn o fewn cymal 4 o'r Bil ar gael i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad."*

Nid ydym eto wedi derbyn copi o'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth y cyfeirir ato yn y paragraffau hyn o'r Memorandwm.

O gofio bod angen inni gyflwyno adroddiad ar y Memorandwm erbyn 18 Mai, byddwn yn ddiolchgar o gael copi o'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth erbyn bore Mercher 10 Mai.

Anfonir copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, gan fod y Memorandwm wedi'i gyfeirio at y pwyllgor hwnnw hefyd.

Yn gywir,

Huw Irranca-Davies
Cadeirydd